Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

# Materion ar gyfer Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd

Mawrth 2026

Wrth i ni gyrraedd diwedd y Chweched Senedd, mae yna amrywiaeth o faterion yr hoffem dynnu sylw atynt ar gyfer ein pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlygu corff o waith gweithdrefnol, a materion eraill, y gallai ein holynydd fod eisiau eu hystyried wrth ddatblygu ei raglen ar waith gweithdrefnol a chynigion ar gyfer trefnu busnes seneddol.

# 1. Gwaith gweithdrefnol

1. Drwy gydol y Chweched Senedd, gwnaethom ddatblygu a chyflawni rhaglen ar waith gweithdrefnol ochr yn ochr â'n swyddogaethau eraill.

2. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith gweithdrefnol priodol ar waith i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, ym mis Mehefin 2025 gwnaethom flaenoriaethu'r eitemau gweithdrefnol i'w cyflwyno cyn diwedd y Chweched Senedd a chynnal cyfarfodydd ychwanegol yn canolbwyntio ar ein swyddogaeth weithdrefnol.

3. Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Gorffennaf 2025 a eglurodd ein dull o flaenoriaethu, a nododd ystod o faterion gweithdrefnol a fyddai'n fwy priodol i'r Seithfed Senedd fynd i'r afael â nhw.[1]

4. Nododd yr adroddiad 10 eitem i'r Seithfed Senedd eu hystyried:

- Atebolrwydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- Codeiddio cyfraith Cymru
- Biliau "Cytras"
- Biliau Cydgrynhoi
- Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025: Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
- Y broses cydsyniad deddfwriaethol
- Cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion heblaw rhywedd
- Diwygiadau gweithdrefnol ar ôl Brexit (yn ymwneud â fframweithiau cyffredin ledled y DU a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020)
- Cynrychiolaeth y Senedd ar gyrff rhyngseneddol
- Rôl Llywodraeth Cymru ym mhenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

[1] Senedd Cymru, Y Pwyllgor Busnes, *Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau*, Gorffennaf 2025

5. Mae rhagor o fanylion am yr eitemau hyn i'w gweld ar dudalennau 8 i 15 o'n hadroddiad *Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau*.[2]

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried yr eitemau gweithdrefnol a nodwyd gennym yn ein hadroddiad *Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau*, wrth sefydlu ei raglen ar gyfer gwaith gweithdrefnol.

## Adolygiad o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

6. Elfen ganolog o'n gwaith gweithdrefnol oedd adolygu prosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod y Senedd.[3]

7. Mae'r tri adroddiad sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn tynnu sylw at nifer o faterion i'r Seithfed Senedd eu hystyried.[4]

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried y materion a nodwyd yn ein hadroddiadau sy'n ymwneud ag adolygu prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod.

## Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

8. Cyflwynodd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd adroddiad ar 3 Mawrth 2026.[5]

9. Mae'r adroddiad yn cynnwys deg argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes, ac mae rhai ohonynt yn rhannu rhyngddibyniaeth â gweithredoedd cyrff a phersonau eraill.

10. Rydym yn cefnogi'r uchelgais o sicrhau bod y Senedd yn ddeddfwrfa sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd. Bydd ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd yn gofyn

[2] Ibid
[3] Gweler tudalen we'r Senedd Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod am ragor o wybodaeth.
[4] Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, Mawrth 2026; Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog:* Rheol Sefydlog 26: Biliau Aelod, Mawrth 2026; a Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Adolygiad o'r broses graffu deddfwriaethol: gweithdrefnau ar gyfer 'ailystyried' Biliau a basiwyd neu a wrthodwyd gan Senedd flaenorol*, Mawrth 2026
[5] Senedd Cymru, *Senedd i bawb: Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd*, Mawrth 2026

am waith sylweddol. Yn anffodus, nid oedd digon o amser ar ôl yn y Chweched Senedd i wneud gwaith oedd ei angen i ystyried yr argymhellion yn ystyrlon ac ymateb iddynt.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried adroddiad yr Adolygiad o'r Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd.

## Fforwm y Cadeiryddion

**11.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn hanfodol er mwyn gweithredu'r pwyllgorau yn effeithiol, ac mae wedi bod yn bartner gwerthfawr wrth ystyried materion sy'n effeithio ar bwyllgorau.

**12.** Ysgrifennodd Fforwm y Cadeiryddion atom ar 29 Ionawr 2026 a gofynnodd i ni ystyried a ddylid cynnwys Fforwm y Cadeiryddion yn Rheolau Sefydlog y Senedd yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'n fwy addas i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ystyried y mater hwn yn weithdrefnol.

**13.** Ar 25 Mawrth 2026, cyhoeddodd Fforwm y Cadeiryddion adroddiad ar effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd a fydd o gymorth sylweddol i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd wrth ddatblygu cynigion ar gyfer sefydlu pwyllgorau.[6]

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywydd y Seithfed Senedd yn ystyried cynnull Fforwm y Cadeiryddion a bod rhoi digon o amser iddo gyfarfod yn cael ei ystyried wrth lunio amserlen y pwyllgor.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried statws a gweithrediad Fforwm y Cadeiryddion fel rhan o'i raglen ar waith gweithdrefnol.

## Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

**14.** Ar ddiwedd y Chweched Senedd, gwnaeth Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) basio pob cyfnod yn y Senedd ac mae wedi dechrau'r cyfnod pedair wythnos.

[6] Senedd Cymru, Fforwm y Cadeiryddion, *Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd*, Mawrth 2026

**15.** Os bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, yna bydd angen gweithredu ar lawer iawn o waith gweithdrefnol ar frys yn y Seithfed Senedd i weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

**16.** Er enghraifft, mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i'r Senedd ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i ddarparu ar gyfer aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnwys un neu fwy o aelodau lleyg. Mae'r newid hwn i'r Rheolau Sefydlog yn ofynnol erbyn 7 Tachwedd 2027.

**17.** Ar ben hynny, mae un o'r ddau sbardun ar gyfer sut y bydd Aelod o'r Senedd yn cael ei adalw yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad lunio canllawiau adalw ac yna rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r canllawiau hynny. Efallai y bydd disgwyl hefyd y bydd aelodau lleyg yn rhan o'r gwaith o lunio'r canllawiau adalw.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried goblygiadau Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ar gyfer ei raglen ar waith gweithdrefnol, pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu.

## Bil Cyllid (Rhif 2) y DU

**18.** Mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch Bil Cyllid (Rhif 2) y DU (yr anfonwyd copi ohono i'r Pwyllgor Busnes), nododd y Pwyllgor Cyllid yr angen posibl am ystyriaethau gweithdrefnol yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon.[7]

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried unrhyw oblygiadau gweithdrefnol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon, wrth ddatblygu ei raglen ar waith gweithdrefnol.

## Y dull o wneud gwaith gweithdrefnol yn y Seithfed Senedd

**19.** O dan Reol Sefydlog 11.7, un o swyddogaethau'r Pwyllgor Busnes, yw gwneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd wrth gynnal ei fusnes, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog, neu unrhyw ran ohonynt, neu eu diwygio.

**20.** Nodwn fod yr ystod a nifer y materion gweithdrefnol a amlinellwyd uchod y bydd angen i'r Pwyllgor Busnes nesaf eu hystyried yn y Seithfed Senedd eisoes

[7] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid (Rhif 2)*, 23 Ionawr 2026

yn sylweddol, ac mae ein profiad ein hunain yn dangos y bydd y rhestr hon yn parhau i dyfu wrth i'r Senedd nesaf ddatblygu.

**21.** Er nad ydym yn cynnig argymhelliad penodol i'n pwyllgor olynol ynghylch sut y dylai fynd ati i wneud y gwaith hwn, nodwn fod neilltuo amser penodol ar gyfer ystyried ei swyddogaethau gweithdrefnol wedi ein gwasanaethu'n dda wrth ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol wrth i ni baratoi ar gyfer y newid i'r Seithfed Senedd. Fel arall, rydym o'r farn y gallai fod rhywfaint o rinwedd i'r Pwyllgor Busnes nesaf, wrth gynnig strwythur ar gyfer pwyllgor, ystyried sefydlu pwyllgor gweithdrefnau, neu wneud gweithdrefnau'n rhan o gylch gwaith pwyllgor arall, er mwyn ei gynorthwyo i ystyried y materion hyn.

# 2. Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd

## Pwyllgor Senedd y Dyfodol

**22.** Cyhoeddodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ddau adroddiad:

- *Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog* (Mawrth 2025)[8]; a
- *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd* (Mai 2025).[9]

**23.** Gwnaeth yr adroddiadau hyn argymhellion i ni ac i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

**24.** Rydym wedi ystyried ac wedi ceisio gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad *Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog*.[10] Yn ein hadroddiad dilynol ar newid y Rheolau Sefydlog, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau gwleidyddol a grwpiadau (Rheolau Sefydlog 1.3 ac 11.3)*, argymhellwyd bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn cadw llygad ar y trefniadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes (fel y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 11.5(iii).[11]

[8] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog*, Mawrth 2025
[9] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025
[10] Gweler: Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau gwleidyddol a grwpiadau (Rheolau Sefydlog 1.3 ac 11.3),* Chwefror 2026; a Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon Rheolau Sefydlog,* Chwefror 2026.
[11] Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau a grwpiadau gwleidyddol (Rheolau Sefydlog 1.3 ac 11.3)*

**25.** O ran yr adroddiad *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd* ("adroddiad Busnes Seneddol"), gwnaethom geisio gweithredu argymhellion 2 ac 11, i ddiwygio Rheolau Sefydlog i (yng ngeiriau Pwyllgor Senedd y Dyfodol) "[...] *er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r Seithfed Senedd drefnu busnes yn y ffordd y mae'n penderfynu sydd orau*".[12]

**26.** Rydym wedi myfyrio ar argymhellion a chasgliadau ehangach Pwyllgor Busnes y Dyfodol yn yr adroddiad Busnes Seneddol, gan gynnwys y "casgliadau pellach" a ddarparwyd ar dudalennau 19 a 20 o'r adroddiad hwnnw.[13]

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd* o ran penderfynu ar ei gynigion ar gyfer trefn busnes seneddol y Seithfed Senedd.

## Ein hystyriaethau pellach

**27.** Mater i'r Seithfed Senedd a'i Phwyllgor Busnes fydd penderfynu sut y dylai'r Seithfed Senedd drefnu ei strwythurau a'i hamserlen. Er mwyn helpu i lywio'r penderfyniadau hyn, gan adeiladu ar waith Pwyllgor Senedd y Dyfodol, cytunwyd i gynnig persbectif o'r Chweched Senedd.

**28.** Gwnaethom ystyried yr opsiynau ar gyfer trefnu busnes a gyflwynwyd gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol. Wrth wneud hynny, daethom i gasgliadau tebyg. Rydym yn cael ein denu at ddull aml-wythnos o amserlennu busnes. Gwnaeth ein trafodaethau gyda grwpiau gwleidyddol ein harwain i ystyried dull tair wythnos.

**29.** Arweiniodd ein trafodaethau hefyd ni i'r casgliad y bydd angen ychydig bach o amser ychwanegol yn y Cyfarfod Llawn yn y Seithfed Senedd, o'i gymharu â'r drefn bresennol. Gellid darparu ar gyfer hyn mewn nifer o ffyrdd. Daethom i'r casgliad bod cynnal Cyfarfod Llawn ychwanegol ar fore Iau (gydag amser gorffen penodol), unwaith bob tair wythnos, yn opsiwn ymarferol. Dewisiadau eraill fyddai defnyddio prynhawn Llun ar gyfer Cyfarfod Llawn ychwanegol, ymestyn hyd y Cyfarfod Llawn, neu ddefnyddio prynhawn dydd Iau.

---

[12] Gellir dod o hyd i'r dyfyniad yn Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025 tt. 20-21 Eglurir sut rydym yn gweithredu argymhellion 2 ac 11 yn Senedd Cymru, Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 11.10 a 12.6(i)*, Mawrth 2026.

[13] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025 tt.19-20

**30.** O ran yr amser a neilltuwyd ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn unig, rydym yn cytuno ag egwyddor a argymhellodd Bwyllgor Senedd y Dyfodol sef "*rhaid rhoi digon o amser i bwyllgorau a'r hyblygrwydd i gyfarfod y tu hwnt i ystad Bae Caerdydd y Senedd*".[14]

**31.** Rhywbeth arall y gwnaethom fyfyrio arno oedd yr amser sydd ar gael i Aelodau ar gyfer eu rolau seneddol ehangach. Yng nghyd-destun ein dewis o fodel tair wythnos, gwnaethom ystyried cynnwys diwrnod wrth gefn lle nad yw busnes yn cael ei drefnu'n rheolaidd (un diwrnod yn ystod y cylch tair wythnos), er mwyn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i Aelodau wrth reoli eu cyfrifoldebau seneddol ac etholaethol, ochr yn ochr â'u dyletswyddau teuluol personol a/neu ddyletswyddau eraill. Gellid defnyddio'r diwrnod hwn hefyd i drefnu busnes ychwanegol yn ôl yr angen, e.e. i ymdopi â llwyth gwaith prysur neu fynd i'r afael â materion sy'n hanfodol o ran amser fel deddfwriaeth.

**32.** I grynhoi, o ran amserlen lefel uchel ar gyfer trefnu busnes seneddol, rydym yn cynnig dull tair wythnos lle:

- mae wythnos 1 yn cynnwys sesiwn Cyfarfod Llawn ychwanegol ar fore Iau, o'i gymharu â'r drefn bresennol;
- mae wythnos 2 yr un fath â'r drefn bresennol; ac
- mae wythnos 3 yn cynnwys diwrnod wrth gefn h.y. diwrnod pan nad yw'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn cael eu hamserlennu'n rheolaidd, er mwyn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd.

**33.** Mae darlun o'r amserlen hon i'w weld ar y dudalen nesaf.

[14] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025 t20

| Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | CYFARFOD LLAWN | DIM BUSNES Y SENEDD |
| | GRWPIAU | | | |
| | CYFARFOD LLAWN | CYFARFOD LLAWN | PWYLLGORAU | |

| Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIM BUSNES Y SENEDD |
| | GRWPIAU | | | |
| | CYFARFOD LLAWN | CYFARFOD LLAWN | | |

| Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIWRNOD WRTH GEFN | DIM BUSNES Y SENEDD |
| | GRWPIAU | | | |
| | CYFARFOD LLAWN | CYFARFOD LLAWN | | |

*Ffigur 1: Darlun o'n hamserlen tair wythnos arfaethedig*

34. Yn amodol ar benderfyniadau mwy manwl, gallai hyn ganiatáu wythnos sy'n canolbwyntio mwy ar y Cyfarfod Llawn, wythnos sy'n canolbwyntio mwy ar bwyllgorau, ac wythnos sy'n cynnwys hyblygrwydd ychwanegol i Aelodau a chyflawni busnes.

35. Bydd unrhyw benderfyniad i gynyddu amser y Cyfarfod Llawn ac amser nad yw'n ymwneud â busnes yn cael effaith gyfatebol ar yr amser sydd ar gael i bwyllgorau gyfarfod. Bydd yn lleihau'r hyblygrwydd a roddir i lawer o bwyllgorau

ar hyn o bryd (drwy'r amserlen bresennol o gyfarfodydd diwrnod llawn ar ddydd Iau fel rhan o'u dyraniad).

**36.** Bydd angen i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ystyried yr effaith ar bwyllgorau yn ofalus cyn cwblhau cynigion amserlen, gan fod lleihau'r amser a neilltuwyd i gyfarfodydd pwyllgor yn unig mewn perygl o danseilio egwyddor Pwyllgor Busnes y Senedd sef "*rhaid rhoi digon o amser i bwyllgorau a'r hyblygrwydd i gyfarfod y tu hwnt i ystad Bae Caerdydd y Senedd*".[15]

**37.** Rydym yn cynnig ein barn gan wybod na ellir gwneud penderfyniadau ar faterion busnes y Seithfed Senedd nes bod canlyniad yr etholiad yn hysbys, a bod yr amryw newidynnau sy'n effeithio ar yr hyn a allai fod yn well yn dechrau dod i'r amlwg.

**38.** Pa bynnag ddull y bydd Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn penderfynu ei gynnig, bydd angen ei brofi'n drylwyr i sicrhau bod ei oblygiadau'n cael eu deall yn llawn.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried amserlen tair wythnos lefel uchel (fel y disgrifir ym mharagraff 32 o'r adroddiad hwn ac a ddangosir yn Ffigur 1 ar dudalen 9).

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd, cyn cynnig amserlen lefel uchel, yn asesu'r ystod lawn o oblygiadau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- capasiti'r Aelodau;
- barn yr Aelodau;
- cyflawni pob agwedd ar fusnes seneddol yn effeithiol;
- i ba raddau y mae cynigion yn cefnogi amodau ar gyfer craffu gwell;
- effaith yr amserlen ar gydraddoldeb; a
- goblygiadau i Gomisiwn y Senedd o ran adnoddau.

**39.** O ystyried maint y newid i'r Senedd, bydd yn bwysig monitro ac adolygu gweithrediad yr amserlen a threfn gyffredinol busnes seneddol.

---

[15] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025 t20

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn sefydlu dulliau o fonitro effaith ei benderfyniadau ar y gwaith o gyflawni busnes seneddol, a'i fod yn ystyried gosod pwyntiau adolygu i sicrhau y gellir gwneud addasiadau i'w ddull yn ystod y Seithfed Senedd, os oes angen.

**40.** Yn ogystal ag ystyried trefn lefel uchel busnes, gwnaethom hefyd ystyried rhai o agweddau mwy manwl busnes y Cyfarfod Llawn.

**41.** Ymgynghorwyd â grwpiau gwleidyddol ar y materion canlynol sy'n ymwneud â threfnu busnes seneddol yn y Seithfed Senedd:

i. Argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol i ddileu neu ddiwygio dwy Reol Sefydlog y gellid ystyried eu bod yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i'r Seithfed Senedd o ran gwneud penderfyniadau (Rheolau Sefydlog 11.10 a 12.6(i)).

ii. Gofynion y Rheolau Sefydlog o ran cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn, fel y maent yn ymwneud â Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol (Rheol Sefydlog 12.56 (ii)).

iii. Nifer y cwestiynau llafar a ddewisir i'w hateb.

iv. Fformat y cwestiynau llafar ac a ellid caniatáu ail gwestiwn atodol.

v. Dyraniadau amser ar gyfer cyfraniadau i wahanol fathau o fusnes y Cyfarfod Llawn.

**42.** Yn dilyn adborth gan y grwpiau gwleidyddol, cytunwyd i gynnig gwelliant i'r Rheolau Sefydlog a nodwyd gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol (pwynt (i) uchod).[16]

**43.** Ni wnaethom gytuno i gynnig unrhyw newidiadau eraill ar hyn o bryd.[17] Dyma faterion y gallai'r Seithfed Senedd fod eisiau eu hadolygu, unwaith y byddwn yn deall patrymau a maint y busnes mewn Senedd fwy o faint.

[16] Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 11.10 a 12.6(i),* Mawrth 2026
[17] Gweler y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Tachwedd 2025 am ragor o fanylion.

## Fformat cyfarfodydd a chymryd rhan yn rhithwir

**44.** Mae’r Chweched Senedd wedi gweld amrywiaeth o addasiadau i fformat y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau’r Senedd, yn dilyn y darpariaethau brys a gyflwynwyd yn rhan olaf y Bumed Senedd i hwyluso parhad busnes yn ystod pandemig Covid-19.

**45.** Cynhaliwyd adolygiad o'r darpariaethau hynny, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Gorffennaf 2022.[18] Roedd yn argymell ymgorffori darpariaethau dros dro sy'n galluogi Aelodau i gymryd rhan a phleidleisio o bell mewn trafodion yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau mewn Rheolau Sefydlog parhaol. Cytunodd y Senedd ar y diwygiadau gofynnol i'r Rheolau Sefydlog.[19]

**46.** Wedi hynny, ymgynghorodd y Llywydd â ni ar ddatblygu *Canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid* yn ffurfiol, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 6.17.[20] Cawsant eu cyhoeddi i ddechrau ym mis Hydref 2022, ac maent wedi cael eu diwygio nifer o weithiau ers hynny.

**47.** Yn wythnosau olaf y Chweched Senedd, rydym wedi rhoi ystyriaeth fanylach i'r gweithdrefnau lle gall Aelodau gymryd rhan a phleidleisio yn y Cyfarfod Llawn. Rydym o'r farn y bydd angen i'r Llywydd a’r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd roi ystyriaeth gynnar i'r trefniadau gorau posibl ar gyfer cefnogi Aelodau i gymryd rhan yn y trafodion o ystyried y cynnydd ym maint aelodaeth y Senedd.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn cefnogi'r Llywydd i ystyried sut y dylid rheoli gweithdrefnau i hwyluso trefniadau ar gyfer cymryd rhan a phleidleisio o bell gan Aelodau yn y ffordd orau yn y Seithfed Senedd, ac i'r gweithdrefnau hyn gael eu hadolygu ar adegau priodol. Dylai ystyriaeth o'r fath ystyried y gwahanol ofynion sy'n gysylltiedig â thrafodion y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau.

[18] Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrafodion y Senedd*, Gorffennaf 2022
[19] Eitem 5, y Cyfarfod Llawn, 13 Gorffennaf 2022
[20] Senedd Cymru, Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid

# 3. Casgliad

48. Mae’r Seithfed Senedd yn cynnig cyfle hanesyddol i ddangos y manteision y gall Senedd fwy o faint eu cyflwyno i bobl Cymru.

49. Bydd penderfyniadau ynghylch sut mae busnes seneddol yn cael ei drefnu, a sut mae'r Senedd yn gwneud ei waith, yn ganolog er mwyn manteisio ar y cyfle hwnnw.

50. Drwy ein gwaith, rydym wedi ceisio paratoi'r ffordd i ganiatáu i'r Senedd newydd wneud penderfyniadau sy'n ei galluogi i fanteisio'n llawn ar ei allu craffu ehangach.

51. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ceisio tynnu sylw at y corff o waith y mae'r Chweched Senedd wedi'i gwblhau gyda'r bwriad o gefnogi'r Seithfed Senedd.

52. Dymunwn yn dda i'n pwyllgor olynol gyda'i waith drwy gydol y Seithfed Senedd.